**<u>COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT</u>**

**REPORT TO:** **<u>THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**

**SUBJECT:** **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 30 MAWRTH 2023 DYDD IAU, 30 MAWRTH 2023</u>**

**REPORT OF:** **DEMOCRATIC AND COMMITTEE SUPPORT OFFICER**

---

PRESENT: COUNCILLOR C. SMITH (AELOD LLYWYDDOL)

Councillors C. Bainton
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. C. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
J. Wilkins
L. Winnett
D. Woods

WITH: Interim Chief Executive

Corporate Director Regeneration and Community Services
Interim Corporate Director of Social Services
Head of Organisation Development
Chief Officer Resources
Chief Officer Commercial & Customer
Head of Legal & Corporate Compliance
Head of Democratic Services, Governance & Partnership
O.D. Manager Payroll, Health & Safety
Service Manager, Performance & Democratic
Communications & Marketing Manager

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:<br><br>Cynghorydd J. P. Morgan<br>Cynghorydd H. Trollope<br>Cynghorydd J. Morgan, Y.H. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Cydymdeimlad**<br><br>- Mynegwyd cydymdeimlad gyda'r Cynghorydd John P. Morgan ar farwolaeth drist ei dad.<br>.<br>- Mynegwyd cydymdeimlad gyda'r Cyn Gynghorydd Gill Clark a'i theulu yn dilyn marwolaeth drist ei gŵr, Roger Clark. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i Aelodau a Swyddogion y Cyngor i gynnal munud o dawelwch fel arwydd o barch.<br><br>**Llongyfarchiadau**<br><br>- Cafodd prosiect Gofalwyr Ifanc Teuluoedd yn Gyntaf ei ddewis ar gyfer rownd derfynol y broses feirniadu yng ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru yn y categori gofalwyr di-dâl. Cynhelir y seremoni wobrwyo ar 27 Ebrill ac mae'r tîm yn falch iawn i fod yn y rownd derfynol ac yn edrych ymlaen at ddathlu eu llwyddiant yn ystod y seremoni.<br><br>- Mrs June Charles o Cwm, sy'n 87 oed ac a enillodd Wobr Gymunedol Gwobrau Menywod Ysbrydoledig y Flwyddyn yn Nhŷ Bedwellte. Roedd yn ddigwyddiad emosiynol iawn ac roedd Mrs Charles yn falch iawn i dderbyn y wobr.<br><br>- Mae Tîm Bowls Dan Do dros 60 Blaenau Gwent wedi cyrraedd y rownd derfynol ac yn cystadlu yn erbyn Abertawe yr wythnos nesaf.<br><br>- Enillodd Band Tref Tredegar Bencampwriaeth Cymru.<br><br>- Enillodd Band Pres Cwm Ebwy bencampwriaeth adran..<br><br>- Cyrhaeddodd Clwb Rygbi Abertyleri a Blaenau Gwent Rownd Derfynol Cwpan Adran 3 a byddant yn chwarae yn Stadiwm y Principality ar 8 Ebrill 2023.<br><br>- Mae Clwb Rygbi Nantyglo yn rownd derfynol y Cwpan Cenedlaethol yn Stadiwm y Principality.<br><br>- Cymerodd disgyblion Blwyddyn 9 Ebwy Fawr ran mewn ffug dreial yn Llys y Goron Abertawe. Roedd yr Aelod Llywyddol yn bresennol yn y digwyddiad ac er nad oedd y disgyblion yn hyderus iawn fe wnaethant gyrraedd y rownd nesaf. roedd yn gystadleuaeth ragorol ac roedd y disgyblion rhagorol.<br><br>Estynnodd yr Aelod Llywyddol longyfarchiadau i bawb ar ran y Cyngor. | |
| **No. 5** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 6** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 7** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR SAFONAU** | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 18** | **PWYLLGOR CRAFFU LLE**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 22** | **CYFARFOD CYFFREDIN Y CYNGOR – DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddi. | |
| **No. 23** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>**Cwestiwn 1**<br><br>Cafwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Lee Parsons, a chafodd ei ateb gan y Cynghorydd Stephen Thomas, Arweinydd y Cyngor.<br><br>**Cwestiwn:**<br><br>"Mae'r contract presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn dod i ben ym mis Medi 2023. A all yr Arweinydd hysbysu'r Cyngor pryd y bydd cyfarfodydd llawn wyneb i wyneb o'r Cyngor yn dechrau yn y Swyddfeydd Cyffredinol?" | |

**Ymateb:**

“Diolch am y cwestiwn, Cyng Parsons. Yn anffodus, ni fedraf ar y cam hwn, er fy mod wedi cael yr un cais gan aelodau o’r Grŵp Llafur. Byddai’n rhaid goresgyn rhai rhwystrau cyn y gallwn ddechrau cyfarfodydd wyneb i wyneb.

**Yn gyntaf,** fel y dywedwch, daw’r contract presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer y ganolfan brechu torfol i ben ar 31 Medi 2023. Ond mae opsiwn i ymestyn am chwe mis pellach ar y pwynt hwnnw os yw’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd yn cytuno, yn dibynnu os bydd rhaglen brechu Gaeaf arall.

**Yn ail,** yng nghynigion diweddar y Gyllideb ar gyfer 23/24, cytunodd y ddau grŵp gwleidyddol gyda’r achos busnes oedd yn cyfeirio at arbediad o £60,000 drwy rentu ystafelloedd yn y Swyddfeydd Cyffredinol. Rhan sylweddol o’r arbediad hwnnw yw tua £4,000 y mis a dderbyniwn gan y Bwrdd Iechyd. Os yw’r contract yn dod i ben, bydd yn rhaid i ni ganfod y diffyg mewn man arall.

**Yn drydydd,** polisi presennol y Cyngor y cytunwyd arno yng nghyfarfod 29 Medi, sef y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad, a benderfynodd yn unfrydol y byddai holl gyfarfodydd y Cyngor a’r Cabinet yn cael eu cynnal o bell ac y cynhelir pob cyfarfod craffu ffurfiol ar sail hybrid. Yn amlwg, os ydym yn ailddechrau cyfarfodydd wyneb i wyneb ni fyddai hynny fel oedd cyn Mawrth 2020 gan fod deddfwriaeth wedi newid yn dilyn y pandemig.

Mae darpariaeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod angen i Gynghorau:

Darlledu cyfarfodydd yn electronig (yn weithredol o fis Mai 2022) a gwneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau y gellir mynychu holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau, Is-bwyllgorau, a Chyd-bwyllgorau o bell (h.y. galluogi pobl heb fod yn yr un lle i fynychu’r cyfarfod) – a elwir hefyd yn ‘gyfarfodydd aml-leoliad’.

Mae Deddf Llywodraeth Leol yn dweud na all Cynghorau orfodi presenoldeb corfforol mewn cyfarfodydd.”

**Cwestiynau Atodol:**

"A all Arweinydd y Cyngor gadarnhau nad oes unrhyw gynlluniau i adeiladu arena gwleidyddol ym Mlaenau Gwent yn y dyfodol".

**Ymateb:**

"Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor y byddai hyn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn ac nad oes ar hyn o bryd unrhyw benderfyniad gan y Cyngor i greu arena gwleidyddol".

**<u>Cwestiwn 2</u>**

Cafwyd y cwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Gareth A. Davies a chafodd ei ateb gan y Cynghorydd Stephen Thomas, Arweinydd y Cyngor

**Cwestiwn:**

"A all yr Arweinydd gadarnhau neu wrthod y straeon fod gwasanaethau bws yn cynnwys y gwasanaeth Fflecsi ym Mlaenau Gwent i ddod i ben yn fuan?"

**Ymateb:**

"Er eglurdeb, mae tri math o wasanaeth yn cael eu rhedeg ar hyn o bryd – llwybrau masnachol a gaiff eu rhedeg gan ddarparwyr preifat, gwasanaethau y rhoddwn gymhorthdal i ddarparwyr preifat eu rhedeg a chynllun peilot Fflecsi, a fu'n rhedeg ers mis Mehefin 2021.

Bu Covid 19 yn ddinistriol i ddefnydd bysus felly darparodd Llywodraeth Cymru gyllid yn ystod y pandemig a pharhau ar ôl y pandemig, drwy'r Cynllun Argyfwng Bysus (BES) ac ar hyn o bryd mae hyn i ddod i ben ar ôl Mehefin eleni.

Roedd y cyllid hwn wedi galluogi darparwyr preifat i barhau yn hyfyw tra gobeithid y byddai rhifau teithwyr yn dychwelyd i'r rhifau cyn y pandemig.

Fel y gallwch ddychmygu, ynghyd â'r 21 Arweinydd awdurdodau lleol eraill, rwyf wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru am yr effaith y gall y gostyngiad cyllid hwn ei gael ar wasanaethau bws lleol.

| | | |
|---|---|---|
| | I fod yn onest, ar y pwynt hwn, ni wyddom yn iawn mewn gwirionedd pa effaith a gaiff hyn ar ddarparwyr preifat. Disgwylir i ddarparwyr hysbysu eu hawdurdod lleol ar 21 Ebrill beth fydd eu gwaith yn dilyn BES, a dylem fod â mwy o eglurdeb bryd hynny.<br><br>Yng nghyswllt gwasanaethau Fflecsi, bydd hyn yn parhau tan ddiwedd Mehefin 2023. Rydym wrthi yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru am gobeithio barhau'r gwasanaeth hwn ond efallai ddefnyddio model gwahanol, gobeithiwn y gallwn adrodd yn ôl ar hyn yn y misoedd nesaf." | |
| **No. 24** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Cafwyd y cwestiwn dilynol gan Mr Phillip Edwards a chafodd ei ateb gan y Cynghorydd Stephen Thomas, Arweinydd y Cyngor:<br><br>**Cwestiwn:**<br><br>"Yng nghyfarfod arbennig y Cyngor ar 7 Chwefror 2022 edrychodd y Cyngor ar ganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar y berthynas gyda Silent Valley Waste Services Cyf.<br><br>Ar ôl trafodaeth gwnaeth y Cynghorydd Stephen Thomas gynnig a gafodd ei eilio gennyf fi (fel Arweinydd y Grŵp Annibynnol Lleiafrifol) ac yn unfrydol wedi ei dderbyn gan y Cyngor llawn y dylid cynnal ymchwiliad mewnol i sicrhau na fydd y pryderon sylweddol a amlygwyd gan adroddiad Archwilio Cymru i'r berthynas rhwng Cyngor Blaenau Gwent a darparydd gwasanaethau gwastraff "byth yn digwydd eto".<br><br>A gafodd yr ymchwiliad hyn dwedi digwydd a phwy oedd ar y panel ymchwilio?"<br><br>**Ymateb:**<br><br>"Cynhaliwyd yr ymchwiliad mewn dau gam:<br><br>Yn gyntaf, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a gyda chytundeb Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol bryd hynny, gofynnodd y cyn Reolwr Gyfarwyddwr am gyngor cyfreithiol a chyflogaeth i gynnal *"Ymchwiliad rhagarweiniol i benderfynu os yw yn briodol yng nghyswllt y cyflogeion cyfredol o'r Cyngor a enwir yn Adroddiad Buddiant Cyhoeddus Archwilio Cymru (a gyhoeddwyd 27 Ionawr 2022), mae'n briodol cymryd camau dan unrhyw un o bolisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor".* | |

Ar ôl ystyried y cyngor cyfreithiol, symudodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ar y pryd y mater gyda'r Swyddog Monitro a'r Adran Datblygu Sefydliadol (Adnoddau Dynol).

Cafodd canlyniad a gytunwyd ar y cyd wedyn ei rannu gyda Archwilio Cymru na wnaeth unrhyw wrthwynebiad i'r camau gweithredu a ddefnyddiwyd.

Yn ail, argymhelliad arall yr Archwilydd Cyffredinol oedd adolygu trefniadau llywodraethiant a throsolwg y Cyngor gyda chwmnïau eraill y mae gennym fuddiant perchnogaeth iddynt.

Fel canlyniad i'r argymhelliad hwn, cafodd adolygiad ei gwblhau o drefniadau llywodraethiant a throsolwg o Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Gwasanaeth Cyflawni Addysgol Gwent, Archifau Gwent a dylid gorffen yr un terfynol ar Amlosgfa Gwent erbyn diwedd Mawrth 2023. Pan fydd wedi ei gwblhau, daw adroddiad drwy'r prosesau democrataidd yn yr ychydig fisoedd nesaf i roi sicrwydd manwl i Aelodau a'r cyhoedd ar lywodraethiant a throsolwg presennol y sefydliadau hyn.

**Cwestiwn Atodol:**

“Yn deillio o'r Adroddiad ar Silent Valley a gyflwynwyd ar 7 Chwefror 2022 codwyd problem yng nghyswllt ymddeoliad hyblyg swyddogion a gytunwyd yng nghyswllt ymddeoliad hyblyg swyddogion a gytunwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Cyngor yn 2018. Rwy'n credu fod hyn yn wybodaeth hanfodol i'r adroddiad ac y dylai Aelodau fod wedi cael eu hysbysu. Ni wnaeth y cyn Gyfarwyddwr Rheoli erioed ddatgan os y cafodd yr wybodaeth ei thrafod gyda'r Arweinyddiaeth a'r Aelodau Gweithredol cyn cyfarfod y Cyngor. Felly gofynnaf os y gallai'r Cyngor ysgrifennu at y Rheolwr Gyfarwyddwr i gadarnhau os y cafodd y cyn Reolwr Gyfarwyddwr i gadarnhau os cafodd yr wybodaeth hon ei harwain gyda'r Arweinyddiaeth a'r Aelodau Gweithredol ar y pryd.

**Ymateb:**

“Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd ef yn yr Arweinyddiaeth nac yn Aelod Gweithredol ar y pryd ac na fyddai'n gwybod am unrhyw drafodaethau a fu”.

Ychwanegodd Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y byddai angen ystyried y cais ac felly y rhoddir ymateb maes o law.

| | | |
|---|---|---|
| **No. 25** | **<u>ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS – 1 EBRILL 2022 I 30 MEDI 2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r gweithgaredd rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod 6 mis cyntaf 2022/2023 a derbyn y cofnod o berfformiad a chydymffurfiaeth yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2022/2023. | |
| **No. 26** | **<u>RHEOLI TRYSORLYS – DATGANIAD RHEOLI TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI A DATGANIAD POLISI MRP 2023/2024 (YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS)</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1, sef ystyried Datganiad y Strategaeth Trysorlys Blynyddol a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a'r Datganiad Polisi MRP ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a'r Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a gynhwysir ynddynt (Atodiad A) a'r diwygiadau arfaethedig cyn eu cymeradwyo. | |
| **No. 27** | **<u>STRATEGAETH CYFALAF 2023/2024</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. | |
| **No. 28** | **<u>FFIOEDD A CHOSTAU CORFFORAETHOL 2023/2024</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- cymeradwyo'r ffioedd a chostau ar gyfer 2023/2024 ar gyfer Rheoli Stadau ac Asedau Strategol a roddir yn Atodiad 1 a chostau llogi ystafelloedd ar gyfer y Swyddfeydd Cyffredinol yn Atodiad 2; a | |

| | | |
|---|---|---|
| | - diwygio ffi yn cyfeirio at Gwasanaethau Gwastraff o £574,93 y chwarter i £543.66 y chwarter ar gyfer 2023/2024 (paragraff 5.1.4) ynghyd â'r ffioedd a ailddatganwyd yn cyfeirio at gasglu Gwastraff Swmpus a gynhwysir yn Atodiad 1. | |
| **No. 29** | **<u>CYNLLUN DEWISOL COSTAU BYW - CYNIGION ATODOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y diwygiadau arfaethedig i Gynllun Costau Byw Dewisol Blaenau Gwent. | |
| **No. 30** | **<u>DATGANIAD POLISI CYFLOGAU 2023/2024</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygiad Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo opsiwn 1 sef cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2023/2024. | |
| **No. 31** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi'r penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2023/24 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | |
| **No. 32** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad ar y sail fod lefel ddigonol o gefnogaeth i Aelodau Etholedig. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 33** | **<u>POLISÏAU DATBLYGU AELODAU Y CYNGOR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef y gyfres o bolisïau fel y nodir yn yr atodiadau:<br><br>• Strategaeth Datblygu Aelodau 2022-2027 (atodiad 1).<br>• Fframwaith Mentora Aelodau 2022-2017 (atodiad 2).<br>• Adolygiad Datblygu Personol Aelodau Etholedig a Fframwaith Cymhwysedd 2022 (atodiad 3). | |
| **No. 34** | **<u>CYFLAWNI GOFYNION PENODOL DEDDF CYDRADDOLDEB 2010: ADRODDIADAU BLYNYDDOL AC ASESU EFFAITH</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau ar gyfer ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad ac:<br><br>• **Adroddiadau Blynyddol –** nodwyd y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion Cydraddoldeb y Cyngor.<br>• **Asesu Effaith –** nodi proses newydd Asesu Effaith a chynnull Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar gyfer pob Aelod Etholedig i gynnwys y ddyletswydd benodol ar gyfer asesu effaith i gynnwys y broses, enghreifftiau o'i defnydd a'i rôl mewn gwneud penderfyniadau. | |
| **No. 35** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro).<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>• Cadarnhawyd y cafodd y ddyletswydd statudol a osodir gan y Ddeddf ei chyflawni.<br><br>• Cymeradwyo newid enw'r Pwyllgor Safonau i'r "Pwyllgor Moeseg a Safonau". | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 36** | **<u>ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU BLYNYDDOL YR AELOD LLYWYDDOL: MEHEFIN 2022 – MAWRTH 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Gweithgareddau Blynyddol yr Aelod Llywyddol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi'r gweithgareddau a digwyddiadau a fynychwyd gan yr Aelod Llywyddol ar gyfer y cyfnod Mehefin 2022 – Mawrth 2023. | |
| **No. 37** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>**Rhoddwyd ystyriaeth i'r dilynol:-**<br><br>**<u>Panel Ymgynghorol ar gyfer Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol</u>**<br>Gwnaeth y Panel yr argymhellion dilynol ar 17 Mawrth i benodi mewn egwyddor:<br>- **Ysgol Gynradd Glyncoed**– Cynghorydd Chris Smith<br>- **Ysgol Gyfun Gwynllyw –** Cynghorydd Sue Edmunds<br>- **Ysgol Gymraeg Bro Helyg –** Ms. Tracy Dyson<br>- **Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri** – Mr. Matthew Fowler<br><br>Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r apwyntiadau uchod.<br><br>**<u>Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</u>**<br><br>Nodwyd y gwnaed penderfyniad i ddod â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn ei ffurf bresennol i ben tra bod Cadeirydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn ailddylunio rôl a chyfansoddiad y Grŵp gan sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn hollol effeithol.<br><br>Byddai'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cynnig ar gyfer ail-sefydlu'r Grŵp a gallai'r Bwrdd wedyn cadarnhau gofynion aelodaeth y Grŵp ar gyfer y dyfodol.<br><br>**<u>Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin – Panel Cist Gymunedol</u>**<br><br>**<u>GAVO – Gwobrau Ymfalchïo yn eich cymuned Gwent</u>**<br><br>Nodwyd fod y grwpiau uchod wedi dod i ben. | |